Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

tai@sirddinbych.gov.uk
01824 706000




# Diweddariad Cymunedol

**Annwyl Breswylydd,** **Tachwedd 2021**

**The Dell, Prestatyn – rhandai hygyrch newydd**

Rydym newydd benodi'r contractwyr R.L Davies & Son o Ogledd Cymru i adeiladu ein rhandai hygyrch ar gyfer Tai Sir Ddinbych ar y tir tu ôl i 1 The Dell.

Byddwn yn adeiladu saith rhandy un ystafell wely ac wyth rhandy dwy ystafell wely ar gyfer rhent cymdeithasol, wedi eu dylunio'n benodol ar gyfer pobl â symudedd cyfyngedig. Bydd y rhandai yn garbon isel ac yn defnyddio technolegau gwres ac ynni adnewyddadwy a byddant o gymorth i gyflawni Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor.

Oherwydd lleoliad y datblygiad, roeddem eisiau gadael i chi wybod y gall y maes chwarae gyferbyn ag Aldi gael ei ddefnyddio gan y contractwr fel lle ar gyfer cyfleusterau lles ac i gadw deunyddiau yn ystod y gwaith adeiladu ond bydd yn dychwelyd ar gyfer defnydd hamdden ar ôl gorffen y gwaith. Bydd y safle o fewn y ffiniau coch ar y ddelwedd isod.




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100023408

I gael gwybodaeth ddiweddaraf am y prosiect, ewch i https://www.taisirddinbych.co.uk/TheDell/ Os oes gennych unrhyw gwestiynau cofiwch gysylltu.

Yn gywir,
**Mark Dixon**
**Rheolwr Rhaglenni - Datblygiad Tai**